YR ATODLEN

## Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau

## Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 1985

*Ceisiadau sy'n ymwneud â gorchmynion dymchwel*

**47.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 272(2)(b) o Ddeddf 1985 (cais gan un o berchnogion mangre am benderfynu'r cyfraniad i dreuliau ATLl, sydd i'w dalu gan berchennog arall).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (gan gynnwys unrhyw atodlen i'r gorchymyn);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) datganiad o'r canlynol—

(i) priod fuddiannau'r perchnogion yn y fangre; a

(ii) eu priod rhwymedigaethau ac atebolrwyddau o ran cynnal ac atgyweirio, o dan unrhyw gyfamod neu gytundeb, penodol neu oblygedig.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r perchennog y mae'r ceisydd yn ceisio cyfraniad ganddo tuag at dreuliau'r ATLl.